Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 12 Chwefror 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Durke | C R Evans | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | T J Hennegan |
| C A Holley | B Hopkins | P K Jones |
| E J King | W G Lewis | W G Thomas |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | P M Black | P R Hood-Williams |
| J W Jones | | |

| **Swyddog** | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, I E Mann, M Sykes a/ac G J Tanner

---

## 95 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 96 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 97 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2018 fel cofnod cywir.

## 98 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**99 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd. (Y Cynghorydd Mark Thomas)**

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Amgylchedd anerchiad ar lafar yn ogystal â'r adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd.

Tynnodd Aelod y Cabinet sylw at ehangder helaeth ei bortffolio. Nododd fod meysydd o'r fath yn bwysig iawn i'r cyhoedd ac yn aml dyma'r meysydd y gofynnir amdanynt fwyaf. Roedd yn dod yn fwyfwy heriol i fodloni disgwyliadau, yn enwedig o ystyried toriadau cyllidebol.

Amlygodd Aelod y Cabinet y canlynol yn benodol: -

Priffyrdd a Thrafnidiaeth

- Amcangyfrifwyd bod gwerth £130 miliwn o waith cynnal a chadw priffyrdd yn aros i'w wneud.
- Mae safle'r awdurdod o ran cyflwr ei brif ffyrdd wedi cwympo o'r ail safle y llynedd i'r pedwerydd safle eleni o'r 22 o gynghorau. Y prif reswm dros hyn oedd mwy o fuddsoddiad mewn llwybrau beicio a cherdded, a arweiniodd at lai o gyllid ar gyfer ffyrdd.
- Er gwaethaf y pwysau, derbyniodd y gwasanaeth lawer o wobrau ac roedd hyn yn glod i'r staff.
- Gobeithiwyd y byddem wedi sicrhau cyllid ychwanegol eleni.

Gwastraff, Parciau a Glanhau

- Cyfunwyd Gwastraff, Parciau a Glanhau yn un maes yn ddiweddar a ganiatawyd mwy o gyfleoedd i symud staff i feysydd hanfodol lle bo angen.
- Cafwyd toriadau cyllidebol sylweddol ym maes Rheoli Gwastraff, ond roedd yn cyflawni targedau o hyd.
- Cafwyd lleihad mewn perfformiad o ran y gyfradd ailgylchu a chompostio. Roedd hyn oherwydd newid yn y cyfyngiadau ar ailgylchu pren gan Cyfoeth Naturiol Cymru a fyddai'n effeithio ar bob awdurdod.
- Roedd cyfran o'r cerbydlu yn y broses o gael ei disodli gan ddarparu cerbydlu mwy dibynadwy.
- Cafodd y gwasanaeth rai cyflawniadau allweddol, yn enwedig o ran tipio anghyfreithlon.

Diogelu'r Cyhoedd

- Rheolwyd yr adran Rheoli Adeiladau mewn cystadleuaeth â'r sector preifat. Cyflwynwyd lefelau uchel o wasanaethau a chyflawnodd y gwasanaeth ei holl dargedau allweddol.
- Cyflawnodd Safonau Masnach ei holl dargedau allweddol a bu'n cynyddu ymwybyddiaeth o weithredoedd twyllodrus.
- Darparodd Bwyd a Diogelwch wasanaeth da mewn cyfnod o doriadau cyllidebol a chyda llai o staff.
- Roedd gan y Swyddfa Gofrestru a Phrofedigaeth staff hyfforddedig o safon o ran profedigaeth.

Llygredd a Rheoli Plâu ac Anifeiliaid

- Roedd angen mwy o ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir o ran rheoli plâu.
- Roedd amser ymateb i gwynion yn dda iawn.

- Yr angen i ddarparu gwasanaeth mwy cynaliadwy wrth fynd ymlaen a fyddai hefyd yn diwallu anghenion y cyhoedd.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Aelod Cabinet a swyddogion yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Tipio anghyfreithlon - anawsterau gyda thir preifat yn ogystal â materion diogelwch mewn rhai lleoliadau.
- Rheolau mewn Safleoedd Amwynderau Dinesig e.e. mynediad i gerbydau ac a oes effaith ar dipio anghyfreithlon.
- Y posibilrwydd o osod camerâu mewn safleoedd tipio anghyfreithlon hysbys.
- Addasrwydd defnyddio *Glycophosphate* ar gyfer rheoli chwyn – trafododd Aelod y Cabinet gydbwyso adroddiadau ar rinweddau carsinogenig gydag Arweiniad yr UE yn ogystal â diffyg opsiynau eraill.
- Pa fesurau a gymerir i ymdrin ag ardaloedd â lefelau uchel o lygredd aer yn awr y gellir eu nodi?
- Angen edrych ar y modd y caiff tyllau yn y ffordd eu trwsio gan fod nifer sylweddol o dyllau yn y ffordd yn cael eu trwsio ac yna'n ailymddangos yn fuan wedyn.
- Pa mor aml y caiff biniau baw cŵn eu gwagio – nododd Aelod y Cabinet yr ymgymerwyd ag adolygiad i nodi ardaloedd lle mae llawer o ddefnydd ac ardaloedd lle nad oes cymaint.
- Diogelwch bwyd a safonau hylendid bwyd.
- Problemau gyda pheiriannau maes parcio yn Langland a Caswell gyda chyfnodau hir pan nad yw'r peiriannau'n gweithio, a'r angen i roi pwysau ar y contractwyr sy'n darparu'r peiriannau i ddatrys y problemau a nodwyd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 100 Craffu Cyn Penderfynu: Trosglwyddo Gwaith Rheoli Rhandiroedd i Gymdeithasau Rheoli.

Roedd Aelod y Cabinet dros Genedlaethau'r Dyfodol a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Eiddo yn bresennol er mwyn i'r pwyllgor ystyried Adroddiad y Cabinet - 'Trosglwyddo Gwaith Rheoli Rhandiroedd o Ddinas a Sir Abertawe i Gymdeithasau Rheoli'.

Amlygodd Aelod y Cabinet rai elfennau allweddol o'r adroddiad. Roedd gan Gyngor Abertawe 16 rhandir a oedd yn darparu 307 o leiniau. Nodwyd ym mharagraff 3 Adroddiad y Cabinet yr opsiynau arfaethedig ac Opsiwn 2 (ym mharagraff 3.2) oedd yr opswin a ffefrir.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i Aelod y Cabinet a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Eiddo a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Rheolaeth breifat
- Cyfrifoldeb am yswiriant
- Cae'r Vetch – bwriad ar gyfer defnydd ar ôl y brydles bresennol

- Sefyllfa petai Cymdeithasau Rhandiroedd yn dod i ben
- Cyfansoddiad Cymdeithasau Rhandiroedd
- Taliadau am y lleiniau dan reolaeth y Cymdeithasau Rhandiroedd
- Hyd y rhestr aros bresennol am randiroedd
- Arolygon safle a graddfa'r gwaith gofynnol cyn trosglwyddo'r safleoedd i'r Cymdeithasau Rhandiroedd
- Y gofyniad i oruchwylio lleiniau clustnodi'n deg
- Amcangyfrif o'r costau a arbedir drwy ddilyn Opsiwn 2.

**Penderfynwyd** -

1) Y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan amlinellu barn y pwyllgor, er mwyn i'r Cabinet ei hystyried;
2) Y dylai Aelod y Cabinet ddarparu ffigurau cyfredol ar gyfer y rhestr aros am randiroedd yn ogystal ag amcangyfrif o'r costau a arbedir drwy ddilyn Opsiwn 2;
3) Dylid cylchredeg Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol y cyngor i'r holl gynghorwyr.

**101 Adroddiadau Cynnydd y Panel Perfformiad Craffu.**

Oherwydd absenoldeb Cynullydd y Panel, y Cynghorydd Mo Sykes, nodwyd y diweddaraf gan y Panel Craffu Perfformiad Ysgolion.

**102 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Rhoddodd Arweinydd y Tîm Craffu y diweddaraf yn ogystal â'r adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd, gan gynnwys y ffaith bod y Cynghorydd Sam Pritchard wedi gwirfoddoli i weithredu fel Cynullydd ar gyfer y Gweithgor Ynni Adnewyddadwy.

**Penderfynwyd** -

1) Ychwanegu'r Cynghorwyr Steve Gallagher, Peter Jones, Irene Mann, Sam Pritchard a Brigitte Rowlands i'r Gweithgor Rheoli Perygl Llifogydd Lleol;
2) Penodi'r Cynghorydd Peter Jones yn Gynullydd y Gweithgor Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn lle'r Cynghorydd Susan Jones;
3) Tynnu'r Cynghorwyr Oliver James ac Andrew Stevens o'r Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio;
4) Tynnu'r Cynghorydd Oliver James o'r Panel Ymchwilio i Weithio Rhanbarthol;
5) Ychwanegu'r Cynghorydd Lesley Walton i'r Panel Ymchwilio i'r Amgylchedd Naturiol; a
6) Chymeradwyo aelodaeth y gweithgorau newydd fel a ganlyn: -

## Gweithgor Ynni Adnewyddadwy (11)

**Cynghorwyr Llafur: 4**

| | |
|---|---|
| Louise Gibbard | **Sam Pritchard (Cynullydd**) |
| Peter Jones | Lesley Walton |

**Cynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol/Annibynnol: 4**

| | |
|---|---|
| Mike Day | Kevin Griffiths |
| Wendy Fitzgerald | Mary Jones |

**Cynghorwyr Ceidwadol: 2**

| | |
|---|---|
| David Helliwell | Brigitte Rowlands |

**Cynghorwyr Uplands: 1**

| | |
|---|---|
| Irene Mann | |

## Gweithgor Digartrefedd (16)

**Cynghorwyr Llafur: 13**

| | |
|---|---|
| Mandy Evans | Erika Kirchner |
| Louise Gibbard | Alyson Pugh |
| Joe Hale | Sam Pritchard |
| Terry Hennegan | Mo Skyes |
| Oliver James | Gloria Tanner |
| Yvonne Jardine | Mike White |
| Elliot King | |

**Cynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol/Annibynnol: 1**

| | |
|---|---|
| **Peter Black (Cynullydd)** | |

**Cynghorydd y Ceidwadwyr: 2**

| | |
|---|---|
| Lyndon Jones | Linda Tyler-Lloyd |

**103 Rhaglen Waith Craffu 2017/18.**

Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r pwyllgor am Raglen Waith Craffu 2017/18. Amlygwyd bod y cyfarfod nesaf yn Bwyllgor y Rhaglen Graffu arbennig ar 5 Mawrth 2018 ar gyfer Craffu ar Droseddu ac Anhrefn er mwyn canolbwyntio ar waith Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

**Penderfynwyd** nodi Rhaglen Waith Craffu 2017/18.

**104 Llythyrau Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu. Cafodd gohebiaeth gan Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles sy’n ymwneud â sesiwn holi ac ateb y pwyllgor ym mis Tachwedd a gohebiaeth gan Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd sy’n ymwneud â'r Gweithgor Taliadau Meysydd Parcio eu cynnwys.

Tynnwyd sylw at rai pwyntiau allweddol yn adran 3.3 yr adroddiad. Yn dilyn y sesiwn holi ac ateb gyda'r Cynghorydd Mark Child, nodwyd bod angen i'r pwyllgor ystyried sut caiff gwybodaeth am Gydlynu Ardaloedd Lleol ei rhaeadru, yn benodol, beth fyddai'n ddigonol i fodloni dyhead y pwyllgor am adborth rheolaidd am Gydlynu Ardaloedd Lleol? Awgrymwyd bod hyn yn cyd-fynd â gwaith Panel Perfformiad y

Gwasanaethau i Oedolion ac y dylai fwydo i mewn iddo. Gallai'r panel hwn gynnwys eitem gylchol yn ei gynllun gwaith i ystyried yr ymagwedd a'i heffeithiolrwydd.

O ran cynghorwyr unigol, cawsant eu hannog i feithrin perthynas waith dda â'u Cydlynydd Ardal Leol a sefydlu, os oes angen, ryw fath o gyswllt anffurfiol rheolaidd.

**Penderfynwyd** -

1) nodi cynnwys yr adroddiad; ac
2) y dylai Panel Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion gymryd cyfrifoldeb am fater Cydlynu Ardaloedd Lleol.

## 105 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

Nodwyd Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. Adroddodd y Cadeirydd hefyd y byddai Cadeirydd newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod y cyngor ar 1 Mawrth 2018 a byddai'n cael ei wahodd i gyfarfod o Bwyllgor y Rhaglen Graffu yn y dyfodol i helpu i ddatblygu'r berthynas rhwng archwilio a chraffu.

## 106 Dyddiad ac amser cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.55 pm

**Cadeirydd**